*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

**Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Diweddariad Archwilio Mewnol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wneir gan ddarparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), MIAA.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer yr Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith sydd ar y gweill ers eu penodi. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol hefyd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

## ARGYMHELLION

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i. Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA hyd yma ac adolygiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol; a
ii. Nodi cynnwys y siarter archwilio mewnol.

## CEFNDIR

5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

6 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, y mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ei ganfyddiadau. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

7 Bydd y penodiad yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin 2023.

**GWYBODAETH**

8 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o gynnydd y gwaith ers eu penodi ym mis Mehefin 2023. Mae hyn yn cadarnhau bod yr adolygiad o drefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli cyflogres ac absenoldeb wedi cychwyn. Mae'r system gyflogres yn system ariannol graidd ac mae trafodion yn cyfrif am dros 70% o'r gwariant.

9 Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu bod gwaith wedi dechrau mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Bydd MIAA yn darparu cymorth i adolygu cydweddu data posibl er mwyn rhoi sicrwydd o ran trefniadau sylfaenol yr Awdurdod.

10 Bydd gwaith MIAA hefyd yn canolbwyntio ar feysydd risg eraill gan gynnwys trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli seiberddiogelwch. Mae'r gwaith hwn ar hyn o bryd yn y cam cynllunio a bydd yn symud ymlaen yn ystod yr wythnosau nesaf.

11 Mae'r gwaith a wneir gan MIAA yn cael ei lywodraethu gan y Siarter Archwilio Mewnol sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 er gwybodaeth. Mae hyn yn un o ofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (2017).

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant a chynaliadwyedd tymor hwy gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae cael sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses o bennu cyllidebau'n effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Mae adolygu systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau arwyddocaol a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |